## Arwain a Galluogi Newid

**Ein nod: Galluogi newid ar draws y system drwy arweinyddiaeth, creu polisïau sy'n galluogi, datblygu capasiti a thargedu cymorth i gyd-fynd ag anghenion pobl a chymunedau**

| | Blaenoriaeth y system | Y newid yr ydym yn ceisio ei gyflawni | Yr hyn y byddwn yn ei wneud | Beth fydd yn cael ei ystyried yn llwyddiant | Pwy fydd yn arwain |
|---|---|---|---|---|---|
| 25 | **Arweinyddiaeth a chreu polisïau sy'n galluogi** | Bwyd Da a Symud ym mhob polisi | Gweithio gyda'n gilydd i barhau i sicrhau cyfatebiaeth rhwng Bwyd Da a Symud â chynlluniau, polisïau a rhaglenni gwaith strategol eraill i gefnogi nodau cyffredin. | • Cyfleoedd i ymgorffori Bwyd Da a Symud mewn cynlluniau, polisïau a rhaglenni gwaith strategol perthnasol wedi'u nodi ac wedi dechrau cael eu rhoi ar waith<br>• Cyfleoedd i gryfhau'r gyfatebiaeth â Bwyd Da a Symud drwy'r Rheoliadau Asesu Effaith ar Iechyd wedi'u nodi ac wedi dechrau cael eu rhoi ar waith | Grŵp Arwain a Galluogi Newid Bwyd Da a Symud Caerdydd, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y Fro |
| 26 | **Datblygu capasiti yn y system** | Sicrhau bod ffyrdd o weithio yn bwrw gwreiddiau | Parhau i feithrin dealltwriaeth a mabwysiadu systemau sy'n gweithio | • Pecyn o hyfforddiant ac adnoddau wedi'u datblygu a'u rhannu<br>• Dull cyson o weithio drwy systemau wedi'i fabwysiadu<br>• Capasiti ar gyfer systemau sy'n gweithio ar draws timau a sefydliadau wedi'i gryfhau | Partneriaeth Egnïol Canolbarth y De (CSAP), Chwaraeon Met Caerdydd a Thîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro |
| 27 | | Llunio'r negeseuon cywir | Datblygu a gweithredu Strategaeth Gyfathrebu ar gyfer Bwyd Da a Symud | • Strategaeth Gyfathrebu wedi'i chyd-ddatblygu<br>• Dull cyson o ran iaith a fframio Bwyd Da a Symud wedi'i fabwysiadu<br>• Straeon am newid wedi'u datblygu a'u rhannu'n eang | Tîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro gyda Grŵp Gweithredu Bwyd Da a Symud (Caerdydd a'r Fro) |

| | Blaenoriaeth y system | Y newid yr ydym yn ceisio ei gyflawni | Yr hyn y byddwn yn ei wneud | Beth fydd yn cael ei ystyried yn llwyddiant | Pwy fydd yn arwain |
|---|---|---|---|---|---|
| 28 | **Datblygu capasiti yn y system** | Gwneud y gorau o adnoddau presennol ac adnoddau'r dyfodol | Parhau i archwilio cyfleoedd i ddiogelu adnoddau a chapasiti presennol, ochr yn ochr a'u hehangu ar gyfer Bwyd Da a Symud | • Gwaith cwmpasu wedi'i wneud ar gyfleoedd cyllido a'r rheini wedi dechrau cael eu rhoi ar waith<br>• Cyfleoedd ar gyfer adnoddau a rennir wedi'u hystyried ac wedi dechrau cael eu rhoi ar waith | Grŵp Arwain a Galluogi Newid Bwyd Da a Symud Caerdydd, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y Fro |
| 29 | **Arweinyddiaeth a chreu dull polisi galluogol**<br><br>**Targedu cymorth i gyd-fynd ag anghenion pobl a chymunedau** | Proses gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar ddata, dysgu a mewnwelediad | Datblygu ac ymwreiddio ymhellach ein dull o sylwi ar, deall a dangos canlyniadau ac effaith y rhaglen Bwyd Da a Symud | • Mecanweithiau i rannu data, gwersi a ddysgwyd a mewnwelediad wedi'u cwmpasu a'u cryfhau<br>• Dealltwriaeth gyffredin o ddata a mewnwelediad wedi'u datblygu<br>• Dull cyffredinol o sylwi ar, deall a dangos canlyniadau ac effaith ar gyfer y rhaglen Bwyd Da a Symud wedi'i amlinellu<br>• Y ffordd y mae'r system yn newid wedi'i chofnodi a'i rhannu gan ddefnyddio offer fel Dadansoddi Rhwydweithiau Cymdeithasol, Mapio Sgil-effaith a straeon am newid<br>• Cyfleoedd ar gyfer cydweithio academaidd mewn perthynas â gwaith ymchwil a gwerthuso wedi'u cwmpasu ac wedi dechrau cael eu rhoi ar waith | Tîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro gyda Grŵp Gweithredu Bwyd Da a Symud (Caerdydd a'r Fro) |

| | Blaenoriaeth y system | Y newid yr ydym yn ceisio ei gyflawni | Yr hyn y byddwn yn ei wneud | Beth fydd yn cael ei ystyried yn llwyddiant | Pwy fydd yn arwain |
|---|---|---|---|---|---|
| 30 | **Targedu cymorth i gyd-fynd ag anghenion pobl a chymunedau** | Cryfhau asedau cymunedol yn y cymunedau sydd â'r angen mwyaf | Archwilio'r potensial ar gyfer datblygu dull mwy strategol o ddatblygu iechyd cymunedol yng Nghaerdydd | Caerdydd:<br>• Dealltwriaeth gyffredin o ddulliau cyfredol ar gyfer datblygu iechyd cymunedol<br>• Cyfleoedd i gryfhau wedi'u harchwilio ac wedi dechrau cael eu rhoi ar waith | Cyngor Trydydd Sector Caerdydd, Chwaraeon Met Caerdydd gyda Thîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro |
| | | | Gweithio gyda'n gilydd drwy'r prosiect Eich Lle i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf ym Mro Morgannwg | Bro Morgannwg:<br>• Dealltwriaeth gyffredin o ddata, deallusrwydd a phrofiad bywyd wedi'i datblygu<br>• Perchnogaeth ar y cyd ar draws sefydliadau, gwasanaethau a phartneriaethau wedi'i chryfhau<br>• Bylchau a chyfleoedd i wneud pethau'n wahanol wedi'u nodi ac wedi dechrau cael eu rhoi ar waith | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y Fro |
| 31 | **Dylanwadu ar newidiadau i'r system ehangach a'u hyrwyddo** | Dylanwad y tu hwnt i Gaerdydd a Bro Morgannwg | Parhau i chwilio'n rhagweithiol am gyfleoedd i ddylanwadu ac eirioli dros newid y system ehangach i gefnogi camau gweithredu lleol *(e.e. cyfyngiadau hysbysebu, cymhwystra ar gyfer y cynllun Cychwyn Iach, polisi cynllunio, data gwyliadwriaeth, mabwysiadu gwaith lleol yn genedlaethol a chynyddu ei raddfa)* | • Dealltwriaeth gyffredin o ba newid yr ydym eisiau ei hyrwyddo<br>• Llwybrau a chyfleoedd ar gyfer dylanwad wedi'u nodi ac yn cael eu defnyddio | Grŵp Arwain a Galluogi Newid Bwyd Da a Symud Caerdydd, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y Fro |